Bwletin Awdurdod S4C
Cyfarfod 323 – 18 Mehefin 2009
S4C, Caerdydd

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 18 Mehefin 2009.

1. Materion yn codi o gofnodion cyfarfod 322
Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 322.

2. Adroddiad y Cadeirydd
Roedd y Cadeirydd wedi cyfarfod gyda Keith Towler, y Comisiynydd Plant.

Roedd wedi llythyru gyda Peter Hain AS a Ben Bradshaw AS i'w llongyfarch ar eu penodiadau diweddar fel Ysgrifennydd Gwladol Cymru ac fel Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon. Nododd y Cadeirydd hefyd ei fod wedi diolch i Andy Burnham AS am ei gymorth tra'n Ysgrifennydd Gwladol.

Roedd wedi ysgrifennu at John Hefin i'w longyfarch ar dderbyn anrhydedd yr OBE.

3. Adroddiad y Prif Weithredwr
Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei hadroddiad.

Nododd IJ na fu cais S4C ar y cyd gyda Channel 4 am ail ffrwd fideo Manylder Uwch yn llwyddiannus a dyfarnwyd y gofod i Five.

Nododd IJ fod y Bwrdd Cyfarwyddwyr wrthi'n gweithredu'r cynllun datblygu talentau ar hyn o bryd.

Cyflwynwyd ddiweddariad ar y cynllun parhad busnes yn sgil effeithiau'r pandemig ffliw. Mae'r cynllun parhad busnes mewn lle a nodwyd bod taenlen wedi ei chreu sy'n rhoi mwy o fanylion am yr hyn sydd wedi ei wneud hyd yma a'r hyn y byddai'n digwydd os yw'r pandemig yn lledaenu.

Nododd IJ fod Papur Gwyn yr Arglwydd Carter, Prydain Ddigidol, bellach wedi ei gyhoeddi.

4. Materion Eraill
Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Cyflwyniad y Cynllun Cyfathrebu Digidol gan Garffild Lloyd Lewis.
- Adroddiad y Cyfarwyddwr Comisiynu
- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiadau Cwynion a Chydymffurfiaeth